

ATODIAD 1: Hyfforddiant Ymarfer Awtistiaeth Da

Cwblhaodd Andrew Guy, yn ei rôl fel arweinydd prosiect ICF Cefnogaeth Ymddygiad Cadarnhaol (PBS) a chefnogaeth 'Active Support', weithdai ar Awtistiaeth i hyfforddi staff am Awtistiaeth sylfaenol, gan fod hyn yn flaenoriaeth i weithwyr cefnogol rheng flaen i fod yn ymwybodol ohono wrth gefnogi pobl drwy fodolau 'Active Support' a PBS.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cynhaliwyd wyth o weithdai i gyd sydd wedi bod yn llwyddiannus gyda darparwyr mewnol ac allanol. Mae'r cwrs diwrnod yn rhoi cyflwyniad cynhwysfawr i'r sbectwm Awtistig. Mae'n canolbwyntio ar yr ymarfer gorau ac ar ddulliau i ddeall Awtistiaeth, sy'n hanfodol i ddarparu cefnogaeth effeithiol. Mae cynnwys y cwrs yn canolbwyntio ar:

- Beth yw Awtistiaeth?
- Problemau y gall pobl gyda Awtistiaeth eu wynebu
- Ffeithiau a mythau am Awtistiaeth
- Ymarfer o safbwynt edrych ar gryfder
- Edrych ar fywyd drwy'r sbectwm Awtistig.
- Cyfathrebu a rhyngweithio
- Materion synhwyraidd
- Cymdeithasoli
- Sut i ddarparu'r gefnogaeth orau
- Sut gall PBS, Cefnogaeth Weithredol a Chynllunio Person Canolog gyfrannu at gefnogaeth effeithiol
- Deall fod Awtistiaeth yn effeithio pobl mewn ffyrdd gwahanol

Mae manteision yr hyfforddiant yma'n amlwg, er enghraifft, mae staff cefnogol yn awr yn ystyried yr amgylchedd, yn benodol yr angen i ganiatáu i bobl brosesu gwybodaeth wrth gyfathrebu. Dywedodd y staff fod y gweithdy wedi ychwanegu at eu sgiliau presennol, yn benodol eu hymwybyddiaeth o ymddygiad heriol.